Buddsoddi mewn treftadaeth LGBTQ+

Mae gan dreftadaeth rôl hollbwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at gymdeithas lewyrchus, decach a chynhwysol.

Dyna pam yr ydym yn ei gwneud yn orfodol bod yr holl brosiectau rydym yn eu hariannu yn sicrhau bod ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth.

Ers 1994 rydyn ni wedi buddsoddi dros £12 miliwn ledled y DU wrth rannu straeon am LHDT+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, queer a hunaniaethau eraill) treftadaeth, creadigrwydd, actifiaeth a llawer mwy.

> Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cynyddu unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol i lawer ohonom, gan gynnwys pobl iau a rhai pobl LGBTQ+. Ni fu erioed yn bwysicach cael ein hatgoffa o rym treftadaeth yn ein perthynas â'n gilydd, gan gysylltu'r gorffennol a'r presennol a chryfhau ein cymunedau lleol.
>
> *Liz Ellis, Rheolwr Prosiect Polisi'r Gronfa Treftadaeth ar gyfer cynhwysiant*

Dyma rai o'r prosiectau treftadaeth LHDT+ ysbrydoledig rydym wedi bod yn falch o'u hariannu. Ac os oes gennych syniad am brosiect, byddem wrth ein boddau'n clywed gennych.

Y termau rydym yn eu defnyddio

Yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, rydym yn defnyddio'r acronym LGBTQ+ neu LHDT+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws a cwiar/queer). Mae'r '+' yn cynrychioli pobl sy'n nodi eu bod yn rhai nad ydynt yn anneuaidd, cwestiynu, rhyngrywiol, anrhywiol a hunaniaethau eraill.

Rydym yn defnyddio'r acronymau hyn oherwydd ein bod yn credu eu bod yn cael eu deall yn eang. Gall hunaniaethau fod yn gymhleth ac yn rhyngadrannol, ac rydym hefyd yn ymwybodol y gallai llawer o'r termau hyn deimlo'n annigonol neu'n gyfyngedig. Rydym yn adolygu'r iaith a ddefnyddiwn yn gyson.